

Ysgol Uwchradd Tywyn



Polisi Gwaith Cartref

Cymeradwywyd y polisi hwn gan y Cyngor Ysgol a'r Corff Llywodraethol

Cyngor Ysgol:

Arwyddwyd: _____ (Cadeirydd)

Dyddiad: _____

Y Corff Llywodraethol:

Arwyddwyd: _____ (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Dyddiad: _____

Dyddiad adolygu: _____

Pwysigrwydd a Phwrpas Gwaith Cartref

Credwn, yn Ysgol Uwchradd Tywyn, bod gwaith cartref yn bwysig am ei fod yn:

- Atgyfnerthu agweddau cadarnhaol i'r gwaith gan roi cyfle i ymarfer y sgiliau a ddysgwyd mewn gwersi;
- Annog a meithrin sgiliau ac arferion da megis astudiaeth/gweithio'n annibynnol, hunan ddisgyblaeth a dyfalbarhad;
- Atgyfnerthu, ehangu ac ymestyn cwricwlwm yr ysgol, gan ychwanegu'n sylweddol (dros yrfa ysgol) at amser astudio;
- Cynnig mynediad i adnoddau nad ydynt ar gael yn yr ysgol/ystafell ddosbarth;
- Cryfhau'r berthynas rhwng ysgol a chartref;
- Paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd a phrofiadau bywyd trwy ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb ac ymrwymiad tuag eu dysgu eu hunain.

Arfer Da

Mae'r gwaith cartref gorau:

- wedi ei gynllunio'n ofalus gydag amcan/nod pendant, mewn cydberthynas â gwaith dosbarth;
- yn ymestyn pob dysgwr gan annog gweithio'n annibynnol, gwaith ymchwil, creadigrwydd a blaengaredd;
- yn cymryd mantais o amgylchedd ac adnoddau'r gymuned;
- â'i bwrpas yn glir i'r disgyblion ac yn ddiddorol iddynt;
- wedi ei wahaniaethu i gwrdd ag anghenion disgyblion unigol;
- yn hyrwyddo cydweithrediad rhieni, ac, efallai, oedolion eraill.

Arfer Da: Rhestr Wirio

Trefn

- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y wers
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei gofnodi yn llyfr cyswllt y dysgwr
- ✓ Cofnodi'r gwaith cartref ar y bwrdd gwyn i gynorthwyo dysgwyr ADY
- ✓ Sicrhau fod pawb yn deall y gwaith cartref
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei gofnodi yng nghofnod yr athro/athrawes o waith
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei osod ar yr un diwrnod bob wythnos (pan fo hynny'n bosib o fewn y pwnc)
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei weld a'i lofnodi gan riant/gwarcheidwad
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei gasglu ar yr un diwrnod bob wythnos (pan fo hynny'n bosib o fewn y pwnc)
- ✓ Sylwadau cadarnhaol wrth adrodd yn ôl ar y gwaith cartref, ac unrhyw gywiro yn unol â'r Côt Cywiro ysgol gyfan
- ✓ Graddio/marcio'r gwaith cartref yn unol â pholisi asesu adrannol, er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y pwnc
- ✓ Athro/Athrawes Pwnc i gofnodi gwaith cartref wedi ei dderbyn a heb ei dderbyn
- ✓ Dysgwyr yn cael eu gwobrwyo/canmol am safon uchel gyson o waith cartref trwy ddefnydd o'r stamp 'gwaith da' a (phwynt 'Llwyddiant' ar System SIMS)
- ✓ Dysgwyr yn cael eu gwobrwyo/canmol am ymdrech gyson a ddangosir wrth gwblhau gwaith cartref

Methodoleg

- ✓ Gwaith Cartref yn elfen gynlluniedig o'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy'n ystyried gwahanol arddulliau o ddysgu dysgwyr unigol
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy'n cymryd i ystyriaeth ystod gallu'r dysgwyr
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy'n ystyried yr amrywiaeth yn yr adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr
- ✓ Tasgau gwaith cartref amrywiol
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy'n herio
- ✓ Tasgau gwaith cartref sydd yn ddiddorol

Gwaith Cartref ar gyfer y Dysgwr/Dysgwyr Mwy Galluog

- ✓ Tasgau gwaith cartref yn benagored ac yn hybu dychymyg a chreadigrwydd
- ✓ Tasgau gwaith cartref yn seiliedig ar ymchwil a hyrwyddo sgiliau ymholi
- ✓ Tasgau gwaith cartref yn cynnwys sgiliau ymchwiliol
- ✓ Tasgau gwaith cartref tymor hir, yn seiliedig ar brosiectau
- ✓ Tasgau gwaith cartref yn hyrwyddo hunanwerthuso
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy'n cynnwys cydweithio gyda chyfoedion, rhieni a'r gymuned ehangach
- ✓ Gwaith cartref yn cael eu monitro'n agos gan athro/athrawes pynciol

Natur y Gwaith Cartref

Bydd natur y gwaith cartref a osodir ar gyfer pob dysgwr yn amrywio yn ôl eu hoedran a'r pwnc. Gall y math o waith cartref y bydd dysgwyr yn eu dderbyn yn yr ysgol gynnwys:

1. Ymarferion

Bydd y math hwn o waith cartref yn cynnig cyfle i ddysgwyr gymhwyso gwybodaeth newydd, neu i adolygu ac atgyfnerthu sgiliau a ddysgwyd mewn gwrs. Mae hyn yn cynnwys:

- cwblhau ymarferion mathemategol
- ymarferion ieithyddol/gramadegol
- darllen
- ysgrifennu traethodau a thasgau creadigol eraill

2. Gwaith Paratoi

Bydd y math hwn o waith cartref yn rhoi cyfle i ddysgwyr gasglu gwybodaeth gefndirol/paratoi ar gyfer gwrsi yn y dyfodol. Er enghraifft:

- darllen deunydd cefndirol
- ymchwilio i destun penodol
- darllen testunau ar gyfer trafodaeth ddosbarth
- casglu erthyglau papur newydd
- casglu offer ar gyfer asesiadau ymarferol (e.e. cynhwysion ar gyfer coginio/gwisg ar gyfer perfformiad)

3. Aseiniadau Ymestynnol

Bydd y math hwn o waith cartref yn annog dysgwyr i fynd ar drywydd gwybodaeth yn unigol a chyda dychymyg. Er enghraifft:

- ysgrifennu adolygiad llyfr
- gwneud neu ddylunio gwaith celf
- cwblhau ymarferion ymchwilio gwyddoniaeth
- ymchwilio newyddion lleol
- dod o hyd i ddeunydd ar y rhynggrwyd
- monitro hysbysebu mewn papur newydd
- Cywain gwybodaeth i greu prosiect/gwaith ffolio/gwaith cwrs

Amllder Gwaith Cartref

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau na fydd y dysgwyr yn derbyn mwy o waith cartref na'r hyn sy'n ddisgwyliedig iddynt ei gwblhau, sef:

Blynyddoedd 7 ac 8:	45-75 munud y diwrnod
Blwyddyn 9:	60-90 munud y diwrnod
Blynyddoedd 10 ac 11:	90-120 munud y diwrnod

Er mwyn ceisio sicrhau hyn, gofynnir i adrannau beidio gosod gwaith cartref yn amlach nag unwaith bob tair gwrs i ddysgwr CA3.

Dylid nodi hefyd nad oes disgwyl i adrannau osod gwaith bob tair gwrs. Yn hytrach, dylid sicrhau fod y gwaith cartref yn cael ei osod er mwyn cyfrannu at addysg a chynnydd y dysgwyr, yn hytrach nag er mwyn 'gosod gwaith cartref' yn unig.

Mewn achos pan fo rhiant/gwarcheidwad yn bryderus nad yw eu plentyn yn derbyn digon o waith cartref, dylid eu cyfeirio at yr adran berthnasol ar wefan yr ysgol sy'n cynnwys cyfres o weithgareddau 'Gwaith Cartref Ychwanegol' sy'n cynnwys cyfleoedd i ymarfer sgiliau Llythrennedd, Rhifedd, ynghyd â chyfoethogi gwybodaeth gyffredinol a phynciol.

Dylid nodi hefyd fod y cynllun i annog darllen er pleser "Da 'di Darllen" yn waith cartref parhaus i ddysgwyr CA3.

Rôl y Staff

Bydd yr **Uwch Dîm Arwain** yn darparu cefnogaeth ar gyfer datblygu rhaglenni gwaith cartref mewn adrannau o ran amser ac adnoddau. Bydd yr UDA hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am hysbysu rhieni o bolisi ysgol gyfan trwy ddefnyddio gwefan a phrosbectws yr ysgol.

Bydd y **Tîm Gofal Bugeiliol** yn darparu cymorth drwy drafod pwysigrwydd gwaith cartref gyda dysgwyr unigol, dosbarthiadau a rhieni. Bydd gwersi cynnydd yn cynnig cyngor ar sut i flaenoriaethu a defnyddio amser yn ddoeth.

Yn ogystal, bydd y Tîm Gofal Bugeiliol yn monitro'r defnydd o'r llyfr cyswllt, gyda'r tiwtoriaid dosbarth yn eu llofnodi'n wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn effeithiol.

Bydd y **Tîm Cefnogi ADY/Cynhwysiad/Anogwyr Dysgu** yn cefnogi Polisi Gwaith Cartref yr ysgol ac yn gallu cynorthwyo adrannau trwy:

- Gydweithio ag adrannau ar unrhyw agwedd o'r ddarpariaeth gwaith cartref;
- Gydweithio ag adrannau ac athrawon unigol ar ddatblygu deunyddiau gwaith cartref gwahaniaethol (ADY a MGaTh);
- Ddarparu cyngor a chefnogaeth i rieni a dysgwyr ar gais;
- Gynnal Clwb Gwaith Cartref.

Dylai pob **Adran/Cyfadran** gynnwys datganiad o'u Polisi Gwaith Cartref o fewn Llawlyfr yr Adran, a hynny'n seiliedig ar egwyddorion ac arferion ysgol gyfan. Bydd adrannau hefyd yn cynllunio, paratoi ac yn gweithredu rhaglenni realistig a hylaw o waith cartref. Dylai'r Pennaeth Adran sicrhau cysondeb adrannol gyda phob agwedd o waith cartref.

Bydd y **Pennaeth** yn sicrhau bod y polisi ysgol gyfan yn cael ei ymgorffori'n gadarn yn narpariaeth pob adran, gan fonitro ac adolygu hynny'n rheolaidd.

Bydd **Athrawon Pynciol** yn trefnu, gosod, egluro ac asesu gwaith cartref a wneir gan ddysgwyr yn rheolaidd. Mae'n bwysig bod amserlen realistig ar gyfer cwblhau'r gwaith cartref a osodir a bod y dysgwyr yn gwbl ymwybodol o'r modd y mae'r gwaith cartref yn cael ei asesu neu ei gydnabod. Dylai pob athro/athrawes wirio'r defnydd o'r dyddiadur gwaith cartref gan sicrhau bod natur y gwaith cartref yn cael ei gofnodi ynddo, ynghyd â'r dyddiad cyflwyno yn y golofn bwrpasol. Yn ogystal â chanmol dysgwyr sy'n cwblhau gwaith cartref yn brydlon, dylai athrawon pynciol ddilyn y polisi ysgol gyfan ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn cwblhau gwaith cartref.

Rôl y Rhieni/Gwarcheidwaid

Gofynnir i'r Rhieni/Gwarcheidwaid werthfawrogi pwysigrwydd gwaith cartref gan ddeall y rôl allweddol sydd ganddynt i'w chwarae yn sicrhau bod gwaith cartref yn cael ei gwblhau'n brydlon, a hynny hyd eithaf gallu eu plentyn.

Anogir rhieni/gwarcheidwaid i gynnig cymorth ymarferol ar gyfer gwaith cartref trwy:

- Sefydlu trefn lle caiff gwaith cartref le cydnabyddedig ym mywyd y cartref ac yn nhrefniadau min nos;
- Trafod gwaith cartref gyda'r person ifanc yn rheolaidd gan gynnig anogaeth a chefnogaeth;
- Gwirio a llofnodi'r dyddiadur gwaith cartref yn wythnosol;
- Darparu man priodol ar gyfer cwblhau gwaith cartref lle nad oes dim i amharu arno/arni.

Os bydd rhieni'n teimlo fod eu plant yn treulio gormod o amser yn gwneud gwaith cartref dylent nodi hynny yn y llyfr cyswllt er mwyn hysbysu'r athro, ac i sicrhau nad yw'r disgybl yn dioddef anfantais mewn unrhyw ffordd. Os bydd achlysur arbennig sy'n golygu na fydd disgybl yn medru cwblhau'r gwaith cartref mewn pryd bydd nodyn yn nyddiadur y disgybl yn golygu y gall athrawon drefnu estyniad rhesymol.

Rôl y Dysgwyr

Bydd y dysgwyr yn:

- Cydnabod gwerth gwaith cartref ac yn ymwybodol o'i allu i wella dysgu;
- Cael eu hannog i ddefnyddio eu dyddiaduron gwaith cartref er mwyn sicrhau blaenoriaethu effeithiol a gwasgaru llwyth gwaith mor gyfartal â phosibl;
- Cwrdd â disgwyliaid y staff gan gwblhau a chyflwyno'r gwaith cartref ar amser;
- Gwneud defnydd o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt;
- Bod yn ymwybodol o oblygiadau peidio cwblhau na/neu ddychwelyd gwaith cartref.

Pan fydd disgybl yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch neu wyliau teuluol, disgwylir iddo/iddi ddal i fyny â'r gwaith yn annibynnol gan gopïo'r gwaith a gollwyd o ganlyniad i'r absenoldeb.

Cefnogaeth i'r Dysgwyr

Er mwyn cefnogi'r dysgwyr, cynhelir Clybiau Gwaith Cartref yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. Mae'r clybiau hyn yn cael eu cynnal bob prynhawn Dydd Mawrth, ac yn cael eu rhedeg gan staff Cefnogi Dysgu sydd ar gael i gynorthwyo drwy gynnig arweiniad ac anogaeth.

Mae'r clybiau hyn yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd cyfrifiadurol, ac felly'n cynnig cyfle cyfartal i ddysgwyr fanteisio ar adnoddau TGCh yr ysgol er mwyn cwblhau gwaith cartref sy'n gofyn am ddefnyddio sgiliau TGCh.

Cynhelir 'cyfnodau tawel' yn ystod y cyfnodau cofrestru er mwyn rhoi cyfle ac amser i ddysgwyr o bob oed fyfyrion ar yr hyn sydd ganddynt i'w wneud, blaenoriaethu a gosod camau gweithredu pendant i'w hunain. Mae'r tiwtor dosbarth wrth law i fonitro hyn a chynnig cymorth i'r rhai sy'n profi anhawster wrth drefnu eu hamser.

Mae llyfrgell yr ysgol yn cynnig man tawel i weithio yn ystod amseroedd egwyl a chinio, yn ogystal â chyfle i ddefnyddio adnoddau TGCh a chael benthyg llyfrau.

Camau Gweithredu: Gwaith Cartref heb ei gwblhau

Tro cyntaf:

- Dylai'r athro/athrawes pwnc gofnodi'r diffyg gwaith cartref yn Nyddiadur Ysgol y dysgwr, a'i arwyddo gan nodi enw'r pwnc
- Dylid rhoi dyddiad ac amser 'Ail gyfle i gyflwyno gwaith cartref' i'r dysgwr (e.e. cyfnod cofrestru'r bore canlynol/y wers nesaf)
- Dylid cadw cofnod o'r diffyg gwaith cartref

Ail gyfle i gyflwyno:

- Os **yw'r** dysgwr yn cyflwyno'r gwaith cartref ar yr amser/dyddiad 'ail gyfle', nid oes angen cymryd camau pellach

Os **nad yw'r** dysgwr yn cyflwyno'r gwaith ar yr amser/dyddiad 'ail gyfle', dylid:

- Cofnodi hynny ar system 'Rheoli Ymddygiad' SIMS
- Rhoi gwybod i'r Pennaeth Adran perthnasol
- Llenwi llythyr "Gwybodaeth am Ddiffyg Gwaith Cartref" ar gyfer ei yrru i'r rhiant/gwarcheidwad

Patrwm o Ddiffyg Gwaith Cartref gan Ddysgwr:

Cyfrifoldeb a dyletswydd y Pennaeth, Penaethiaid Adran a'r Cydlynnydd Cynnydd disgyblion fydd monitro a chadw golwg am batrymau diffyg gwaith cartref. Dylid trefnu cyfarfod gyda'r dysgwr/dysgwyr sy'n methu â chyflwyno gwaith cartref yn gyson, er mwyn ceisio dod i wraidd y broblem gan gydweithio gyda'r Cydlynnydd ADY/Swyddog Cynhwysiad/Anogwyr Dysgu lle bo hynny'n berthnasol. Os yn berthnasol, gall y CCD yrru llythyr 'Pryder Sylweddol' (Atodiad 2) i'r cartref.

Mae'n bwysig ystyried a chofio y gall fod sawl rheswm dros beidio cwblhau'r gwaith cartref, er enghraifft:

- Dysgwr heb gofnodi'r gwaith cartref yn ei ddyddiadur ysgol
- Dysgwr heb gymryd y dasg o ddifrif
- Dysgwr wedi anghofio mynd â'r llyfr/pecyn/adnodd arall gartref er mwyn cwblhau'r dasg
- Dysgwr yn anghofio cwblhau'r gwaith cartref
- Problem/argyfwng teuluol wedi codi
- Dysgwr wedi cwblhau'r gwaith ond wedi ei anghofio
- Dysgwr wedi cael nifer fawr o waith cartref gan sawl pwnc mewn cyfnod byr o amser ac felly heb gael amser i gwblhau pob un
- Dysgwr heb sylweddoli y byddai'n cymryd cymaint o amser i gwblhau'r gwaith
- Dysgwr ddim yn sylweddoli pwysigrwydd/pwrpas gwaith cartref
- Diddordebau eraill yn cymryd eu hamser
- Dysgwr yn dweud nad oedd yn deall y dasg
- Diffyg adnoddau gan y dysgwr yn y cartref i gwblhau'r gwaith

Os nad oes gwelliant yn ymdrech y dysgwr mewn perthynas â gwaith cartref, dylid trefnu cyfarfod rhwng y CCD a'r rhiant (Atodiad 3).

ATODIAD 1

YSGOL UWCHRADD TYWYN

Ffordd yr Orsaf/Station Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU

☎ 01654 710256

Pennaeth/Head Teacher: Mrs Helen Lewis



GWYBODAETH AM DDIFFYG GWAITH CARTREF

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Enw dysgwr: _____ Dosbarth: _____ Dyddiad: _____

Mae'n ddrwg gennym eich hysbysu nad yw eich plentyn wedi:

- a) cyflwyno'r gwaith cartref a osodwyd ar gyfer y dosbarth
- b) ymdrechu'n ddigonol i gwblhau'r gwaith cartref a osodwyd

Mae'n bwysig iawn fod yr holl dasgau gwaith cartref yn cael eu cwblhau i lefel foddhaol ac yn cael eu cyflwyno ar amser.

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech drafod pwysigrwydd cwblhau gwaith cartref gyda'ch plentyn. Yr wyf yn siŵr y bydd eich plentyn, gyda'ch cydweithrediad a'ch cefnogaeth chi yn sylweddoli bod cwblhau gwaith cartref mewn pryd am fod o gymorth mawr wrth wella ei g/chynnydd.

Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r bonyn isod a'i rhoi i'ch plentyn i'w ddychwelyd ataf ynghyd â'r gwaith cartref. Bydd hyn yn fodd o'm sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r anawsterau presennol. Mae croeso i chi ychwanegu unrhyw sylwadau am faterion sy'n codi o'r sgwrs gyda'ch plentyn ar y bonyn isod, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Yr eiddoch yn gywir

Athro:

Adran:

✂-----

Enw'r dysgwr : _____ Dosbarth : _____

Rwyf wedi trafod pwysigrwydd gwaith cartref gyda fy mhentyn ac wedi sicrhau ei fod/bod erbyn hyn wedi cwblhau'r dasg gwaith cartref er mwyn ei gyflwyno i chi gyda'r bonyn hwn.
Sylwadau rhiant (dewisol):

Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad: _____ Dyddiad : _____

ATODIAD 2

YSGOL UWCHRADD TYWYN

Ffordd yr Orsaf/Station Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU

☎ 01654 710256

Pennaeth/Head Teacher: Mrs Helen Lewis



LLYTHYR GOFAL BUGEILIOL

Pryder Sylweddol

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Enw dysgwr: _____ Dosbarth: _____ Dyddiad: _____

Mae cwblhau a chyflwyno gwaith cartref yn cael ei fonitro'n ofalus iawn yn Ysgol Uwchradd Tywyn, a hynny am ei fod yn cael ei gydnabod yn eang fel dull gwerthfawr i atgyfnerthu'r dysgu sydd wedi digwydd yn yr ystafell ddosbarth.

Mae gwaith cartref hefyd yn caniatáu i athrawon adnabod unrhyw anawsterau sy'n effeithio ar gynnydd ein disgyblion er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn y rhain. Mae'n bwysig iawn fod yr holl dasgau gwaith cartref yn cael eu cwblhau i lefel foddhaol ac yn cael eu cyflwyno ar amser.

Ysgrifennaf i'ch hysbysu nad yw eich mab / merch wedi dychwelyd gwaith cartref yn y pynciau canlynol:

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech drafod pwysigrwydd cwblhau gwaith cartref gyda'ch mab/merch. Yr wyf yn siŵr y bydd eich plentyn, gyda'ch cydweithrediad a'ch cefnogaeth chi yn sylweddoli bod cwblhau gwaith cartref mewn pryd am fod o gymorth mawr wrth wella ei g/chynnydd.

Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r bonyn isod a'i roi i'ch plentyn i'w dychwelyd ataf. Bydd hyn yn fodd o'm hysbysu eich bod yn ymwybodol o'r anawsterau presennol ac yn barod i gydweithio â ni er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n gwella. Mae croeso i chi ychwanegu unrhyw sylwadau am faterion sy'n codi o'r sgwrs gyda'ch plentyn ar y bonyn isod, os ydych yn dymuno gwneud hynny. Os nad yw'r bonyn yn cael ei dychwelyd, neu os nad yw'r sefyllfa'n gwella, mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi i fynychu cyfarfod i drafod agwedd eich mab / merch tuag at g/waith cartref.

Pe dymunech drafod hyn ymhellach, cysylltwch â mi ar fyrder ar y rhif ffôn uchod.

Yr eiddoch yn gywir

Pennaeth Blwyddyn

✂-----

Enw dysgwr: _____ Dosbarth Cofrestru: _____

Rwyf wedi trafod pwysigrwydd gwaith cartref gyda fy mhientyn. Rwyf wedi sicrhau bod fy mhientyn, erbyn hyn wedi cwblhau'r tasgau gwaith cartref a'u cyflwyno i'r athrawon perthnasol.

Sylwadau Rhiant (dewisol):

Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad: _____ Dyddiad: _____

ATODIAD 3

YSGOL UWCHRADD TYWYN

Ffordd yr Orsaf/Station Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU

☎ 01654 710256

Pennaeth/Head Teacher: Mrs Helen Lewis



Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Enw dysgwr: _____ Dosbarth: _____ Dyddiad: _____

Fel y gwyddoch, mae cwblhau a chyflwyno gwaith cartref yn fater yr ydym yn ei gymryd o ddifrif yn Ysgol Uwchradd Tywyn ac rydym wedi ysgrifennu atoch eisoes i'ch hysbysu o'n pryderon ynglŷn â diffyg cymhelliant a hunanddisgyblaeth _____ mewn perthynas â gwaith cartref.

Gan na chafwyd gwelliant yn y maes hwn, credaf ei bod yn bwysig ein bod yn cwrdd i drafod y mater ymhellach. Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod yn yr ysgol ar ddydd _____ am _____.

Os nad ydi'r amser/dyddiad yma'n gyfleus, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib er mwyn trefnu apwyntiad arall, os gwelwch yn dda.

Yr eiddoch yn gywir

Pennaeth Cynorthwyol